



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref MA-LW-1272-22

Scott Waddington  
Gadeirydd Bwrdd Trafnidiaeth Cymru  
Trafnidiaeth Cymru  
3 Llys Cadwyn  
Pontypridd  
CF37 4TH

[scott.waddington@tfw.wales](mailto:scott.waddington@tfw.wales)

5 Ebrill 2022

Annwyl Scott

### **Llythyr Cylch Gwaith Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y Tymor Llywodraeth nesaf**

Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor arbenigol, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a buddsoddiadau wedi'u targedu mewn seilwaith trafnidiaeth modern, gan weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol fel ein partner cyflawni trafnidiaeth integredig.

Yn y llythyr hwn rwy'n amlinellu'r blaenoriaethau yr hoffwn weld Trafnidiaeth Cymru yn cyfrannu atynt dros y pum mlynedd nesaf, wrth inni ddechrau ar gyfnod allweddol yn y gwaith o ddatblygu system drafnidiaeth fodern, ddibynadwy ac integredig a fydd yn annog pobl i wneud penderfyniadau teithio cynaliadwy a chwarae ei rhan wrth gyrraedd ein targedau hinsawdd ar gyfer 2030 a'r tu hwnt.

Mae'n ofynnol i Drafnidiaeth Cymru weithredu yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, a'r holl ofynion statudol a rheoliadol eraill sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw. I'r perwyl hwn, dylid ystyried y llythyr hwn ar y cyd â'r Ddogfen Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, ac Erthyglau Cymdeithasu Trafnidiaeth Cymru. Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd gydymffurfio â'r safonau, y canllawiau a'r egwyddorion llywodraethu sy'n berthnasol i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru, y cafodd Trafnidiaeth Cymru ei hysbysu amdanynt gan Lywodraeth Cymru – gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Egwyddorion Nolan a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall ac yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng Trafnidiaeth Cymru a'i his-gwmnïau. Paratowyd y llythyr cylch gwaith hwn yn y cyd-destun hwnnw,

a dylid ei ddarllen a'i ddehongli yn cyd-destun hwnnw, ynghyd â'r cytundebau contractiol presennol rhwng Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

Wrth inni edrych tua'r dyfodol, hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi, y Bwrdd, a thîm cyfan Trafnidiaeth Cymru am eich ymroddiad amlwg i ddarparu gwasanaethau trafndiaeth rhagorol drwy gydol y tymor llywodraeth blaenorol, ac yn enwedig drwy'r heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19 yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi ymrwymïadau uchelgeisiol a radical y Llywodraeth hon dros dymor y Senedd. Mae'n seiliedig ar werthoedd unigryw Cymru o ran cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol a'i nod yw sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb a dileu anghydraddoldeb ar bob lefel o'r gymdeithas. Rwyf am weld y gwerthoedd hyn yn ganolog i brosesau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflawni er mwyn sicrhau'r system drafnidiaeth yr ydym yn ei hadeiladu gyda'n gilydd.

Mae'r llythyr cylch gwaith hwn yn cadarnhau'r cyfeiriad a'r ffocws y bydd Trafnidiaeth Cymru yn eu mabwysïadu a'u datblygu dros y tymor llywodraeth hwn, gan weithio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru yn ôl yr angen i ymateb i'r heriau a wynebir, yn enwedig gyda phob rhan o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phartnerïaid cyflawni. Wrth wneud hynny, rwy'n disgwyl i Drafnidiaeth Cymru barhau i ddilyn yr uchelgais o dalu ei chostau rhedeg drwy weithredu mewn modd mor effeithlon â phosibl, wrth barhau i ddarparu rhwydwaith trafndiaeth integredig, gan sicrhau gwerth am arian a manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiadau y gallwn eu gwneud mewn trafndiaeth sy'n addas ar gyfer dyfodol Cymru.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal nifer o ymrwymïadau trawsbyncïol allweddol y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys cyflawni ein Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru a gweithio tuag at ein targed newydd i weld 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, o'i chymharu â'r ganran bresennol o 32%, gan bennu nodau mwy heriol lle bynnag y bo modd.

Mae blaenoriaethau'r Strategaeth fel a ganlyn:

- 1) Dod â gwasanaethau i bobl i leihau'r angen i deithio. Nid atal teithio'n gyfan gwbl yw'r nod, ond bydd yn golygu cynllunio ymlaen llaw i sicrhau cysylltiadau ffisegol a digidol gwell i gefnogi mynediad at wasanaethau mwy lleol, a rhagor o weithio gartref a gweithio o bell. Os yw rhagor o bobl yn gallu cwblhau eu teithiau bob dydd drwy gerdded a beicio, byddwn yn dibynnu llai ar geir.
- 2) Mae angen inni ganiatáu i bobl a nwyddau gael eu cludo yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen inni fuddsoddi yn y gwasanaethau trafndiaeth dibynadwy, effeithlon a fforddiadwy y mae pobl am eu defnyddio, yn gallu eu defnyddio ac yn eu defnyddio mewn gwirionedd. Mae hefyd angen y seilwaith trafndiaeth

arnom i gefnogi'r gwasanaethau hynny. Byddwn yn sicrhau bod ein seilwaith trafndiaeth yn ddiogel, yn hygyrch, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn addas ar gyfer y dyfodol, er mwyn addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

A lle mae angen seilwaith trafndiaeth newydd, byddwn yn gweithredu mewn ffordd newydd. Byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer cynllunio i roi blaenoriaeth i ateb y galw am deithio drwy gerdded, beicio a thrafndiaeth gyhoeddus cyn ystyried cerbydau modur preifat.

- 3) Mae angen inni annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy. Er mwyn cyflawni ein targedau o ran newid yn yr hinsawdd, mae angen i bobl newid y ffordd maent yn teithio. Mae hyn yn golygu ei gwneud yn haws gwneud y peth iawn. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod trafndiaeth gynaliadwy carbon isel yn fwy deniadol ac yn fwy fforddiadwy, a thrwy fabwysiadu datblygiadau arloesol.

Yn sail i amcanion trawsbynciol y Rhaglen Lywodraethu, mae amrywiaeth o ymrwymadau ar lefel portffolio y dylid rhoi'r un pwys iddynt, ac a fydd yr un mor hanfodol wrth sicrhau rhwydwaith trafndiaeth a fydd yn ein galluogi i gyrraedd ein targedau hinsawdd yn 2030 a'r tu hwnt.

Bydd angen i gynlluniau Trafndiaeth Cymru hefyd ddangos sut y bydd yn cyfrannu at ein deg amcan llesiant, ac yn ymgorffori'r ffyrdd o weithio a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd Trafndiaeth Cymru gynnwys nifer o ddangosyddion perfformiad gweithredol a chorfforaethol y gellir eu monitro ac adrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod. Bydd hyn yn rhoi mesur hanfodol o ba mor effeithlon ac effeithiol mae Trafndiaeth Cymru yn gweithredu ac yn cyflawni.

### **Amcanion Polisi Strategol**

Bydd cynlluniau busnes blynyddol Trafndiaeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2022–27, yn unol â Chynllun Strategol Corfforaethol ar gyfer yr un cyfnod, yn ategu'r gwaith o gyflawni ein hymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu, Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafndiaeth, ac yn mynd i'r afael â'r amcanion a'r heriau polisi strategol canlynol:

### **Sero Net – Yr Argyfwng Hinsawdd**

Dylai Trafndiaeth Cymru weithio gyda ni i gyflawni Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2. Mae'r argyfwng hinsawdd yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon a bydd gan Drafnidiaeth Cymru rôl hollbwysig i'w chwarae wrth gyrraedd ein targedau hinsawdd.

Rhaid i Drafnidiaeth Cymru greu rhwydwaith trafndiaeth integredig, hygyrch a fforddiadwy a fydd yn hwyluso ein targedau hinsawdd statudol ar gyfer 2030, a tharged Llwybr Newydd o 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040.

Er mwyn helpu gyda hyn, dylai Trafnidiaeth Cymru ein helpu i gyflawni ein huchelgais Cymru Sero Net i leihau nifer y milltiroedd mae pobl yn eu teithio mewn car 10% erbyn 2030, a chynyddu cyfran y teithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy i 35% erbyn 2025 a 39% erbyn 2030.

Dylai'r nod hwn o alluogi ac annog pobl i newid i opsiynau trafndiaeth gynaliadwy fod yn ganolog i strategaethau a chynlluniau gweithredol Trafnidiaeth Cymru yn ystod y tymor llywodraeth hwn.

Rwy'n disgwyl i Drafndiaeth Cymru fod yn batrwm enghreifftiol ar gyfer yr ymrwymiad hwn a gweithio gyda phartneriaid i'w gyflawni ar bob lefel yng Nghymru. Mae gan Drafndiaeth Cymru rôl allweddol wrth adeiladu capasiti, gydag awdurdodau lleol yn benodol, i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni ei chyfrifoldebau trafndiaeth mewn modd cynaliadwy.

Dylai cynlluniau Trafnidiaeth Cymru nodi sut y byddwch yn gweithio gyda ni i gyflawni ein strategaeth ar gyfer gwefru cerbydau trydan ac ar gyfer datgarboneiddio'r fflyd bysiau, gan gynnwys bysiau TrawsCymru erbyn 2026, yn ogystal ag ystyried sut i fynd i'r afael â heriau ehangach yr hinsawdd, gan gynnwys bioamrywiaeth ac ymaddasu i'r hinsawdd.

### ***Llwybr Newydd***

Mae Llwybr Newydd – Strategaeth Drafndiaeth Cymru yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer system drafndiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon. Mae'n cynnwys tair blaenoriaeth pum mlynedd a phedwar uchelgais 20 mlynedd trawsbynciol, lefel uchel, ar gyfer sut y gall trafndiaeth sicrhau manteision ehangach i bobl a chymunedau, i'r amgylchedd, i'r economi ac i leoedd, ac i ddiwylliant ac iaith yng Nghymru; gan gyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan Drafndiaeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r Strategaeth drwy'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, a fydd yn nodi prosiectau, cynlluniau, mentrau neu ymyriadau penodol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Strategaeth, gan gynnwys cyflawni prosiectau sydd eisoes yn mynd rhagddynt. Bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, a'r prosiectau cyflawni penodol sydd ynddo, yn cwmpasu'r pedwar llwybr cyflawni trawsbynciol hanfodol a nodwyd yn Llwybr Newydd, sef Datgarboneiddio, Cydraddoldeb, Cynllunio Teithiau Integredig a'n Cynnig Gwledig. Dylai'r gwaith o gyflawni'r Cynllun hefyd gefnogi gweithredu Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a'i alinio â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Dylai Strategaeth Drafndiaeth newydd Cymru fod yn ganolog i gynlluniau corfforaethol a gweithredol Trafnidiaeth Cymru.

Er mwyn cyflawni'r Strategaeth, bydd angen inni gefnogi ac annog pobl i wneud dewisiadau teithio callach i leihau tagfeydd a chynyddu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy. Dylai cynlluniau Trafnidiaeth Cymru gwneud mwy i nodi sut y byddwch yn

gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill i gyflawni lefel y newid mewn ymddygiad a fydd ei angen.

### ***Trafnidiaeth Integredig***

Rwy'n disgwyl i weld Trafnidiaeth Cymru yn arwain y ffordd ar integreiddio gwell ac yn edrych ar atebion modern, arloesol ac aml-ddull, gan gynnwys tocynnau a gwybodaeth i deithwyr, er mwyn sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus yn fforddiadwy, yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio i bobl yng Nghymru.

Er mwyn trawsnewid y ffordd y mae pobl yn teithio yng Nghymru, bydd angen i hyn fynd y tu hwnt i edrych ar ddulliau traddodiadol, ac ymgorffori atebion gweithredol newydd i Gymru fel trafndiaeth sy'n y ateb i'r galw a Symudedd fel Gwasanaeth.

Dylai'r gwaith hwn gynnwys cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid a chyllidwyr, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Adran Drafnidiaeth y DU a Network Rail.

Mae ein rhaglenni sy'n cefnogi datblygiad y Metro yn cynnig rhai o'r cyfleoedd gorau i gyrraedd ein targedau ar gyfer newid y ffordd rydym yn teithio, a lleihau tagfeydd ar y ffyrdd, allyriadau carbon a llygredd aer. Dylai cynlluniau gweithredol Trafnidiaeth Cymru ddangos sut y byddwch yn cyflawni tri chynllun cyflawni pum mlynedd rhaglen y Metro.

Rwyf hefyd yn disgwyl i Drafnidiaeth Cymru barhau i ddatblygu a chyflawni'r rhaglen sy'n cael ei datblygu ar gyfer Canolbarth Cymru, a fydd yn hanfodol i gyflawni ein hamcanion ar gyfer ardaloedd gwledig.

Dylai Trafnidiaeth Cymru hefyd barhau i ddarparu adnoddau ar gyfer Uned Gyflawni Burns i gyflawni argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Mae ei rôl o ran cynllunio, monitro neu arwain y gwaith o gyflawni 58 o argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn allweddol i gynnig dewisiadau amgen cystadleuol i bobl yn lle defnyddio ceir preifat ar yr M4.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu adnoddau i gefnogi gwaith Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru sydd newydd gael ei sefydlu, a fydd yn gwneud argymhellion i helpu i ddarparu system drafnidiaeth integredig o ansawdd uchel ar gyfer gogledd Cymru, gan wella'r ffordd rydym yn teithio wrth leihau allyriadau ar yr un pryd.

Rwyf hefyd yn disgwyl i Drafnidiaeth Cymru weithio gyda ni i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r gyfundrefn tacsis, gan gynnwys mesurau i ddatgarboneiddio'r fflyd.

### ***Gwasanaethau a Seilwaith Rheilffyrdd***

Er mwyn darparu gwasanaethau rheilffordd o ansawdd uchel, dylai cynlluniau Trafnidiaeth Cymru gynnwys:

- Cyflwyno cerbydau newydd gwerth £800 miliwn erbyn 2024

- Cyflawni rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd
- Gwneud Newidiadau i Amserlen Cymru a'r Gororau rhwng Mis Rhagfyr 2022 a mis Rhagfyr 2024

Dylai Trafnidiaeth Cymru gefnogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu trefniadau partneriaeth effeithiol gyda sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am weithredu gwasanaethau rheilffyrdd a seilwaith yng Nghymru.

Rwy'n disgwyl i Drafnidiaeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a Network Rail i sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer Gweithrediadau, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd.

Dylai cynlluniau Trafnidiaeth Cymru hefyd nodi sut y byddwch yn gweithio gyda sefydliadau eraill i gefnogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a darparu rhaglen gost-effeithiol o orsafoedd newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd a rhwydwaith ehangach Cymru a'r Gororau.

### ***Gwasanaethau Bysiau***

Yn ystod y tymor llywodraeth hwn mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ddiwygio gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan edrych ar bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau bysiau gan gynnwys seilwaith, dyrannu ffyrdd, hygyrchedd, integreiddio â dulliau trafniadaeth gyhoeddus eraill ac, yn ehangach, sut y gallwn newid yn y diwydiant er gwell.

Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno cynigion deddfwriaethol i ailreoleiddio gwasanaethau bysiau ledled Cymru, gan greu gwasanaethau fforddiadwy a diogel sy'n canolbwyntio ar deithwyr, a helpu i ailgysylltu cymunedau, darparu opsiynau trafniadaeth gynaliadwy i unigolion a lleihau tagfeydd a llygredd.

Mae angen i'r system ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau bysiau yng Nghymru fod yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd angen eglurder ynghylch rolau a sut mae'r gwahanol rannau'n integreiddio i greu system genedlaethol ond gydag atebolrwydd lleol.

Rydym yn disgwyl i Drafnidiaeth Cymru weithio gyda ni i helpu i gyflawni'r prosiectau a'r diwygiadau hyn. Mae'n debyg y bydd gan Drafnidiaeth Cymru rôl allweddol wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r model newydd ar gyfer cynllunio a darparu'r gwasanaethau rheolaidd, fforddiadwy a dibynadwy sydd eu hangen ar bobl a dylai'r cynlluniau adlewyrchu hyn.

### ***Teithio Llesol***

Mae cynyddu lefelau cerdded a beicio'n sylweddol ar gyfer teithiau bob dydd yn hanfodol er mwyn cyflawni ein targed ar gyfer canran y teithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy. Rôl Trafnidiaeth Cymru yw helpu i wella'r ffordd mae seilwaith teithio llesol yn cael ei ddarparu ledled Cymru, o ran graddfa ac ansawdd, a sicrhau bod y

buddsoddi sylweddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn ogystal ag ategu'r gwaith trawsbynciol i sicrhau bod rhagor o bobl yn teithio drwy ddulliau llesol.

Bydd gan Drafnidiaeth Cymru rôl allweddol wrth ysgogi'r newid ymddygiad sydd ei angen i gyflawni'r amcan hollbwysig hwn. Rwy'n disgwyl i gynlluniau Trafnidiaeth Cymru nodi sut y byddwch yn cyflawni hyn, drwy weithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill.

### ***Darparu Gwasanaethau Ehangach***

Yn ystod y tymor hwn byddwn yn ceisio pennu rolau penodol Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru mewn rhai meysydd cyflawni allweddol, gan gynnwys y model cyflawni newydd ar gyfer ariannu bysiau a gwasanaethau, a rheoli'r rhwydwaith ffyrdd strategol. Dylem symud tuag at fodel sy'n caniatáu i Drafnidiaeth Cymru symud tuag at wasanaethau trafnidiaeth sydd wedi'u hintegreiddio'n briodol, a rhyddhau capasiti o fewn Llywodraeth Cymru i ymateb i'r heriau polisi y mae angen inni eu hwynebu er mwyn cyrraedd ein targedau ar gyfer lleihau carbon.

Dylai Trafnidiaeth Cymru barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaethau i gyflawni'r uchod, gan sicrhau diwydrwydd dyladwy manwl a datblygu opsiynau i nodi sut y gallwn reoli'r gwasanaethau hyn yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol posibl yng Nghymru, a gweithio tuag at weithredu'r atebion y cytunwyd arnynt.

### ***Dadansoddi Arbenigol, Cyngor a Rheoli Prosiectau***

Bydd uned ddadansoddi Trafnidiaeth Cymru yn parhau i fod yn adnodd tystiolaeth allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth ledled Cymru. Bydd yr uned yn parhau i reoli'r tri model trafnidiaeth rhanbarthol a'r Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol, yn ogystal â chefnogi Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gasglu a dadansoddi data, i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer trafnidiaeth ac i alluogi gwerthuso'r holl gynlluniau ac ymyriadau trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn modd effeithiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddibynnu ar Drafnidiaeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyngori proffesiynol parhaus, gan gynnwys datblygu'r achos dros fuddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth a chymorth ehangach ar gyfer Rhaglen Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Rwy'n disgwyl i'r ffordd mae cyflogeion Trafnidiaeth Cymru ac ymgynghorwyr allanol ar draws y gwasanaethau hyn yn cael eu defnyddio gael ei chydbwyso mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth amlwg am arian, ac yn cadw gwybodaeth fewnol, dealltwriaeth, capasiti a gwybodaeth am y diwydiant o fewn Trafnidiaeth Cymru.

## ***Cyllid, Rheoli Cyllidebau a Gwerth am Arian***

Rwy'n disgwyl gweld Trafnidiaeth Cymru yn mynd ati'n frwd i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a fydd yn pwysleisio'r gwerth am arian a gynigir gan ddarparu gwasanaethau trafndiaeth integredig, ac yn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni cymaint ag y bo modd o fewn cyfyngiadau ein cyllideb.

Er ei sefydlu mae cwmpas, maint a chymhlethdod y gwasanaethau a ddarperir gan Trafnidiaeth Cymru wedi tyfu'n sylweddol erbyn hyn, ac mae ei chyllideb wedi tyfu'n unol â hynny. O ystyried yr esblygu hwn, dylai cynlluniau corfforaethol a gweithredol Trafnidiaeth Cymru amlinellu sut y byddwch yn nodi ac yn gwerthuso opsiynau ar gyfer newid; yn ystyried modelau gweithredu a strwythurau sefydliadol i sicrhau eu bod yn parhau i ddangos gwerth da am arian, yn ogystal â diogelu'r hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb i heriau'r dyfodol

Rwy'n disgwyl i Drafnidiaeth Cymru barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn modd agored a chadarnhaol i sicrhau bod arian yn cael ei reoli mewn ffordd effeithiol a bod eich gwaith cyflawni, eich gwasanaethau a'ch costau gweithredu'n cynnig gwerth am arian, yn unol â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Dylai Trafnidiaeth Cymru hefyd barhau i chwilio am gyfleoedd masnachol, ac opsiynau i ehangu eu refeniw masnachol o fewn y trothwyon a ganiateir.

## ***Blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru***

Fel cwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau ei bod yn cefnogi ein hamcanion ehangach ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'n gwerthoedd.

Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â'n strategaethau a'n polisiâu presennol, megis ar yr Iaith Gymraeg, sero-net ar gyfer cyrff cyhoeddus erbyn 2030, Tuag at Ddyfodol Diwastraff a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cadwyn gyflenwi Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaethau cymdeithasol, egwyddorion gwaith teg a chaffael moesegol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Disgwylir i Drafnidiaeth Cymru a'i his-gwmnïau chwarae ei rhan i hyrwyddo a chyflawni'r nodau hyn.

Dylai hyn hefyd gynnwys gweithio gyda Chyrff Cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan gynnwys Comisiwn Dylunio Cymru, y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd a Banc Datblygu Cymru i gyflawni amcanion ar y cyd, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell.

## ***Dysgu a Datblygu***

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am bennu a darparu cyfleoedd datblygu i'w phobl drwy raglenni ac atebion strwythuredig ac anffurfiol. I gefnogi hyn, dylent greu cynllunio dysgu sy'n addas ar gyfer pob lefel o arweinyddiaeth tîm ac sy'n sicrhau eu



bod yn defnyddio dulliau arloesol i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr ym mhob rhan o'r sefydliad. Byddant yn canolbwyntio ar:

- Datblygu Arweinwyr,
- Atebion dysgu ar-lein pwrpasol,
- Annog rhagor o fenywod i ymgymryd â rolau arweiniol a'r sector drafnidiaeth drwy raglenni a gweithgareddau cynhwysol pwrpasol.

### ***Cynllunio Busnes***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu cynllun busnes blynyddol sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei hamcanion. Wrth ddatblygu ei chynllun busnes, dylai Trafnidiaeth Cymru nodi amcanion busnes clir ynghyd â chyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i'w monitro ac adrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod. Bydd angen i ddangosyddion perfformiad allweddol gael eu cymeradwyo gan Weinidogion a bydd angen iddynt gwmpasu tri maes penodol:

- Canlyniadau: sef cyflawniadau strategol sy'n cyd-fynd â'r cynllun corfforaethol ac sydd, yn eu hanfod, yn rhai tymor canolig i hirdymor
- Allbynnau: mewn perthynas â Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf a manylion y llythyr cylch gwaith hwn
- Gweithredol: bydd angen i gynllun corfforaethol ddangos i Lywodraeth Cymru sut mae Trafnidiaeth Cymru yn cael ei gweithredu mewn modd effeithlon ac yn effeithiol.

Bydd y cynllun busnes yn cynnwys manylion ariannol sy'n dangos sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni'r cylch gwaith ac yn cael ei phroffilio dros gyfnod o 12 mis. Bydd y cynllun busnes hefyd yn nodi'r adnoddau dynol a'r costau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni amcanion y cylch gwaith hwn. Bydd angen iddo amlinellu sut y bydd y sefydliad yn datblygu ei staff a sut y bydd yn meithrin y capasiti a'r gallu i gyflawni'r amcanion strategol a amlinellir uchod.

Bydd y cynllun busnes yn disgrifio'n glir y gweithgareddau y bydd Trafnidiaeth Cymru yn eu cyflawni yn ystod y cyfnod, gydag amcanion SMART a fydd yn dangos yn glir a yw'r gwaith hwn yn mynd yn unol â'r amserlen. Cyn nodi'r cyllid terfynol ar gyfer y cynllun busnes, rhaid i Drafnidiaeth Cymru sicrhau, ar y cyd â'r arweinydd polisi perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru, y cytunir ar yr holl weithgareddau arfaethedig yn y cynllun busnes a bod cyllid ar gael.

### ***Gweithio gyda Llywodraeth Cymru***

Bydd cynlluniau corfforaethol a gweithredol arfaethedig Trafnidiaeth Cymru yn nodi sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni'r blaenoriaethau a'r dyheadau polisi rwyf wedi'u hamlinellu yn y llythyr hwn. Fodd bynnag, ni fwriedir i hon fod yn rhestr

gynhwysfawr, a bydd angen inni gydweithio i sicrhau bod y cynlluniau hynny'n parhau i adlewyrchu ein blaenoriaethau cyffredin.

Mae'r berthynas gadarnhaol, adeiladol, sy'n seiliedig ar heriau, a ddatblygwyd rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan bwysig yn llwyddiant Trafnidiaeth Cymru a diolchaf i chi am gefnogi hyn. Gallaf gadarnhau y bydd eich Tîm Partneriaeth yn Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain gan Steve Vincent, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd, a'ch pwynt cyswllt o ddydd i ddydd o fewn y tîm yw Gareth Evans, Pennaeth Alinio Busnes.

Rwyf wedi ystyried eich cynllun busnes drafft a gallaf gadarnhau nad wyf yn gallu ei gymeradwyo. Mae diffyg manylion am newid ymddygiad, a gwnaethoch gytuno i fynd i'r afael â'r mater hwn a'i ailgyflwyno imi ei ystyried. Mawr yw'r her sydd o'n blaenau i ddarparu'r gwasanaethau trafniadaeth gynaliadwy, y mae ar Gymru eu hangen yn fawr iawn, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni ein nodau cyffredin dros y blynyddoedd nesaf.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee', is centered on a light grey rectangular background.

**Lee Waters AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd  
Deputy Minister for Climate Change